TAFWYL

2015

ADRODDIAD GWERTHUSO TAFWYL 2015

menter caerdydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CARDIFF
CAERDYDD

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

heritage
treftadaeth

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

"TAFWYL IS EMBRACING WELSH IN AN INCLUDING WAY RATHER THAN EXCLUDING NON-WELSH SPEAKERS."

"MAE TAFWYL WEDI DOD YN RHAN ANNATOD O ŴYL YR HAF YNG NGHAERDYDD, AC YN ADLEWYRCHU'N DDA IAWN AR EIN PRIFDDINAS. MAE'R CYMYSGEDD O BOBL SY'N MYNYCHU YN WYCH - O BOB OED, CYMRY CYMRAEG RHUGL, DYSGWYR, CYMRU DDI-GYMRAEG AC YMWELWYR TRAMOR AC MAE'N DENU TWRISTIAID I GAERDYDD HEFYD - FE DDAETH NIFER O BOBL DWI'N NABOD I GAERDYDD YN UNSWYDD AR GYFER TAFWYL ELENI. DIOLCH YN FAWR I'R HOLL DREFNWYR A GWIRFODDOLWYR."

CYNNWYS

1. Cyflwyniad
1.1 Hanes yr ŵyl
1.2 Nodau'r ŵyl
1.3 Presenoldeb yn yr ŵyl
1.3.1 Partneriaid
1.3.2 Noddwyr
1.4 Tafwyl 2015
1.5 Marchnata
1.5.1 Cyfryngau Cymdeithasol a'r wefan
1.5.2 Cyfryngau
2. Y Gwerthusiad
2.1 Nodau'r gwerthusiad
2.2 Methodoleg
2.3 Canlyniadau
2.3.1 Demograffeg
2.3.2 Lleoliadau'r ŵyl
2.3.3 Graddio'r ŵyl
2.3.4 Effaith economaidd
2.3.4.1 Gwariant mynychwyr
2.3.4.2 Stondinwyr
2.4 Datblygu Tafwyl
3. Crynodeb o'r ffordd ymlaen

1. CYFLWYNIAD

1.1 Hanes yr Ŵyl

Tafwyl yw'r ŵyl flynyddol a sefydlwyd gan Menter Caerdydd yn 2006 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Yn 2012 symudodd yr ŵyl o'r Mochyn Du i Gastell Caerdydd, a ddaeth yn ran o becyn Gŵyl Caerdydd y Cyngor. Mae cynulleidfa Tafwyl wedi tyfu yn aruthrol dros y blynyddoedd o 1,500 o bobl yn y Mochyn Du i 18,000 blwyddyn ddiwethaf.

Yn 2015 y prif nod oedd adeiladu ar lwyddiant yr ŵyl gan gynnal prif ddigwyddiad Tafwyl dros ddeuddydd am y tro cyntaf yng Nghastell Caerdydd, a'i gadw yn ŵyl rad ac am ddim.

1.2 Nodau'r Ŵyl

Nodau'r Ŵyl, fel y nodir gan y trefnwyr ydy:

1. Codi proffil y Gymraeg yng Nghaerdydd trwy roi cyfle i blant, pobl ifanc ac oedolion flasu ychydig o'r iaith Gymraeg yn ein prif ddinas.
2. Cyflwyno syniadau a materion Cymraeg mewn amgylchedd hwyliog a phleserus.
3. Creu cyfleoedd i'r cyhoedd gael hyder yn y Gymraeg a chael mynediad at yr iaith.
4. Targedu gwahanol gynulleidfaoedd ar wahân, a'r gweithgareddau yn hygyrch i bob grŵp. Dylai oedolion yn arbennig weld yr ŵyl yn ddigon soffistigedig iddyn nhw, tra'n hwyl i blant hefyd.
5. Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau i blant a phobl ifanc Cymraeg a chynyddu eu hymwybyddiaeth a'u gwerth o'r iaith.
6. Cryfhau safle'r Gymraeg yn y gymuned.
7. Cynyddu a gwella gwasanaethau i ddinasyddion Cymraeg.
8. Cael ei hystyried yn ŵyl o ansawdd uchel.
9. Sefydlu proffil cenedlaethol.

1.3 Presenoldeb yn yr ŵyl

Mynychodd dros 35,500 o bobl Tafwyl 2015 (Gŵyl 9 ddiwrnod o hyd), cynnydd o 90% o'i gymharu â'r 18,717 o bobl a fynychodd yn 2014. Mynychodd 22,000 o bobl Ffair Tafwyl ar y dydd Sadwrn a 12,000 ar y dydd Sul. Y targed ar gyfer 2015 oedd 25,000 – felly roedd y ffigyrau 54% yn fwy na'r disgwyl. Daeth dros 1,500 ychwanegol i 29 o ddigwyddiadau ffrinj Tafwyl gan ddod a niferoedd Tafwyl 2015 i dros 35,500.

1.3.1 Presenoldeb Partneriaid

Mae Tafwyl yn bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac mae'n darparu platfform i'r Gymraeg ym mhrifddinas Cymru.

Rydym yn ymfalchïo ein bod ni fel corff wedi cael y syniad hwn ac wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda'r holl gyrff sy'n rhannu'r un weledigaeth. Mae'r cyrff a fynychodd Tafwyl yn cynnwys:

Yr Urdd, Llenyddiaeth Cymru, Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg, Green City Events, Re-Create, Undeb Rygbi Cymru, Y Gleision, Boulders, Athletau Cymru, Criced Morgannwg, Ymgynghoriaeth Bwyd Howell, Lleol.cymru, Mewn Cymeriad, Amgueddfa Cymru, Bragdy'r Beirdd, Sherman Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru, National Theatre Wales, Protest Fudr, Cwlwm Busnes Caerdydd, Cymdeithas Carnhuanawc, Nofit State, Gomer, Y Lolfa, Cymdeithas Golff Caerdydd, Merched y Wawr, Eglwys Ebeneser, Gorwelion/Horizons, Into Film Cymru, Mudiad Meithrin, Ti a Fi Caerdydd ac Ysgolion Cymraeg Caerdydd.

Roedd ymateb positif iawn gan y partneriaid, gyda phawb a holwyd yn datgan eu bod am gymryd rhan flwyddyn nesaf.

1.3.2 Noddwyr

Llwyddodd Tafwyl i ddenu £28,975 o nawdd eleni, o'i gymharu â £19,000 y llynedd, cynnydd o 52%. Roedd nifer o'r noddwyr yn bartneriaid newydd, gan gynnwys Capital Law, sydd wedi cytuno noddi'r ŵyl am dair blynedd, yn ogystal â cyfreithwyr.com, Coleg Caerdydd a'r Fro, Siop y Felin a Thompson Darwin Law. Dyma restr llawn o'r noddwyr:

Prifysgol Caerdydd, BBC Cymru, Clwb Ifor Bach, Bay Resourcing, Boom Pictures, Equinox Communication, S4C, Meithrinfa Miri Mawr, Adnod, Coleg Caerdydd a'r Fro, Park Grove, Carlsberg, Mela PR, Canolfan Mileniwm Cymru, Carlsberg, Cyfreithwyr.com, Thompson Darwin Law, Gôl, Capital Law a Moilin Cyf.

1.4 Tafwyl 2015

Roedd nifer o ddatblygiadau newydd i ŵyl Tafwyl elen. Dyma'r uchafbwyntiau:

- Y prif ddatblygiad eleni oedd cynnal yr ŵyl dros ddeuddydd yng Nghastell Caerdydd - dydd Sadwrn a Sul rhwng 11.00 - 21.00. Roedd yn ddatblygiad hynod lwyddiannus, gyda dros 12,000 o bobl yn heidio i'r castell ar y diwrnod ychwanegol.
- Roedd y ffaith fod yr ŵyl dros ddeuddydd yn golygu bod llawer mwy o arlwy ar hyd y deuddydd, gan gynnwys 42 o fandiau ar hyd tair llwyfan - o fandiau pop, roc, indi, gwerin, jazz, ffync a phres.
- Roedd dau ddiwrnod llawn dop o weithdai, gyda dros 200 o weithgareddau unigol yn yr ŵyl. Roedd gweithgareddau i bob oedran o bob genre gan gynnwys coginio, chwaraeon a'r celfyddydau.
- Cydweithio gyda Capital Law am y tro cyntaf i gynnig pecyn cyflawn a theg i wirfoddolwyr Tafwyl. Roedd dros 120 o wirfoddolwyr yn stiwardio dros y deuddydd, a gyda nawdd newydd gan Capital Law roedd modd rhoi crys t, tocyn bwyd, bwyd a diod a phecyn briffio proffesiynol i'r criw.
- Am y tro cyntaf eleni cafwyd Yurt Lles yn Tafwyl. Yurt yn llawn o sesiynau blasu gan therapyddion cymwys, gan gynnwys Tylino Pen Indiaidd, Yoga, Pilates, Aciwbigo, ac Yoga Babis.
- Diolch i grant gan y Loteri Treftadaeth, roedd hi'n bosib dod a hanes Cymraeg Castell Caerdydd yn fyw drwy theatr stryd.
- Cydweithio gyda Ymgynghoriaeth Bwyd Howell i gydlynu ardal Street Food yn Tafwyl.
- Presenoldeb yn Agoriad Swyddogol Tafwyl gan Arweinydd Cyngor Caerdydd, Phil Bale a Llysgennad Tafwyl, Huw Stephens.
- Gweithio gyda Moilin Cyf. i greu Ap Tafwyl 2015.
- Cydweithio gydag artist lleol, Cathryn Wetherhead, i ddiweddaru brand Tafwyl. Dyluniodd yr artist cynnyrch Tafwyl i werthu yn y Ffair gan gynnwys crysau-t a bibs.
- Cydweithio gyda chwmni rheoli gwastraff am y tro cyntaf i sicrhau fod yr ŵyl yn eco-gyfeillgar. Roedd 20 o fanau ail-gylchu wedi eu lleoli ar draws y maes.

"MI OEDD Y FFAIR WEDI'I DREFNU'N ARDDERCHOG - PAWB WEDI MWYNHAU AC ROEDDWN YN LLAWN BALCHDER O GLYWED FOD PAWB OEDD WEDI MYNYCHU WEDI MWYNHAU YN FAWR IAWN. GRÊT!"
EQUINOX COMUNICATIONS - NODDWR

"EVERYTHING WAS SO WELL DONE AND SUITABLE FOR A WIDE AGE RANGE. IT MADE ME FEEL PROUD OF BEING WELSH AND A PART OF THE CITY. I WOULD HIGHLY RECOMMEND IT TO LOTS OF PEOPLE."

"CYFLE I GYMDEITHASU YNGHANOL Y DDINAS DRWY'R GYMRAEG. CYFLE DA I DDANGOS BOD YR IAITH YN FYW A PAM BOD POBL YN SIARAD HI - BOD YR IAITH YN FWY NA CHYFATHREBU...YN FFORDD O FYW, AC YN DDIWYLLIANT."

1.5 Marchnata

Gofynnwyd i'r rhai a holwyd sut yr oedden nhw wedi clywed am yr ŵyl, a'r wefan, llyfrynnau a thaflenni, a thrwy ffrind oedd y dulliau mwyaf cyffredin o glywed am yr ŵyl.

1.5.1 Cyfryngau Cymdeithasol a'r wefan

Yn y misoedd yn arwain at Tafwyl ac yn ystod Gŵyl Tafwyl, o'r 1af o Fai i'r 6ed o Orffennaf roedd 14,978 ymweliad i wefan Tafwyl (www.Tafwyl.org), 10,763 ymweliad unigryw a 58,516 ymweliad i dudalennau gwahanol ar y wefan.

Roedd Twitter Tafwyl yn brysur iawn yn ystod penwythnos Ffair Tafwyl (4ydd a 5ed o Orffennaf). Cafodd negeseuon Tafwyl eu hail-drydar 1,041 o weithiau, a chyfeiriwyd at Tafwyl 733 o weithiau, gan arwain at gyrhaeddiad posibl o 1,845,936 o bobl, gyda phobl megis Huw Stephens (132,670 o ddilynwyr), Matthew Rhys (16,534 o ddilynwyr) ac Beca Pirkis (22,024 o ddilynwyr) yn trydar am yr ŵyl.

Dros y flwyddyn yn arwain at Tafwyl, cynyddodd y nifer o ddilynwyr Tafwyl o 2,463 o ddilynwyr i 3,390 (cynnydd o 37.64%). Roedd nifer dilynwyr Facebook Tafwyl wedi cyrraedd 2,952 erbyn ddiwedd wythnos Tafwyl.
Cafodd ap Tafwyl ei ddiweddaru ar iOS 323 o weithiau ac Android 128 o weithiau.

1.5.2 Cyfryngau

Cafodd yr ŵyl gryn sylw yn y cyfryngau yn cynnwys:

- 10 eitem ar y teledu cenedlaethol yn cynnwys Heno, Made in Cardiff, Prynhawn Da, a Newyddion 9.
- Cafwyd rhaglen awr o uchafbwyntiau Tafwyl ar Made in Cardiff, wnaeth apelio tuag at gynulleidfa di-Gymraeg y ddinas.
- 8 eitem radio yn hyrwyddo'r ŵyl gan gynnwys sgwrs 20 munud ar raglen Eleri Sion ar Radio Wales, sgwrs ar Radio Cardiff a sgyrsiau ar raglenni Shan Cothi a Phost Cyntaf Radio Cymru.
- Darllediadau byw o Ffair Tafwyl ar BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales.
- Dros 10 o eitemau yn y wasg genedlaethol a rhanbarthol a'r wasg leol gan gynnwys Western Mail, Wales on Sunday, Waitrose Weekender, Buzz Magazine, Cardiff Life, South Wales Echo, Golwg, Y Cymro, Selar a'r Dinesydd.

"WEL, DW I MOR FALCH BOD Y DIGWYDDIAD YN MYND O NERTH I NERTH FEL HYN - MAE YN WIRIONEDDOL WYCH! LLONGYFARCHIADAU I FENTER CAERDYDD. MAE'N RHOI HYDER I'R GYMRAEG AC I'N DIWYLLIANT. MWYNHEAIS I'N FAWR!"

2. Y GWERTHUSIAD

2.1 Nodau'r Gwerthusiad

Nod y gwerthusiad ydy casglu gwybodaeth am yr agweddau canlynol o'r ŵyl:

1. Wnaeth yr ŵyl gwrdd â'i hamcanion?
2. Beth oedd argraffiadau mynychwyr o'r ŵyl?
3. Beth ydy demograffeg cynulleidfa'r ŵyl?
4. Beth oedd effaith yr ŵyl ar y cyfranogwyr?
5. Beth oedd effaith economaidd yr ŵyl?

2.2 Methodoleg

Casglwyd data gan y tîm gwerthuso yn y brif fynedfa a gan swyddfa'r ŵyl.

Casglodd y tîm prif fynedfa sampl o'r gynulleidfa a oedd yn mynychu'r ŵyl er mwyn dadansoddi'r ddemograffeg. Anfonwyd holiadur gwerthuso i'r cyhoedd drwy ein gwefannau cymdeithasol, Facebook a Twitter, a thrwy ein rhwydwaith e-chlysur sy'n cael ei anfon at 5,000 o bobl. Defnyddiwyd y rhaglen Survey Monkey ar gyfer creu a dadansoddi'r holiadur. Yn ogystal, anfonwyd holiadur at holl stondinwyr, noddwyr a phartneriaid yr ŵyl, er mwyn casglu eu barn a'u sylwadau nhw o'r ŵyl.

2.3 Canlyniadau

Cynhaliwyd 198 o gyfweliadau gyda mynychwyr yr ŵyl. Aseswyd demograffeg y mynychwyr yn arsylwadol.

2.3.1 Demograffeg y Gynulleidfa

Rhaniad rhyw sampl y tîm prif fynedfa oedd 54% benywod, 46% gwrywod. Yn ôl yr holiadur, roedd oedran y mynychwyr yn weddol debyg i'r llynedd gyda 43% rhwng 25-40 a 38% dros 60.

Yn arsylwadol, roedd 1/3 o'r mynychwyr yn blant (gan gofio nad yw'r plant yn cymryd rhan yn y gwerthusiad ar-lein), ac roedd y rhan fwyaf o fynychwyr yr ŵyl yn wyn (91%).

Roedd nifer o bobl wedi teithio'n bell i fynychu'r ŵyl. Roedd 15% o'r rai a holwyd wedi teithio o du allan i Gaerdydd. O'r rhai oedd wedi teithio i gyrraedd Tafwyl roedd 81% wedi teithio rhwng 10-50 milltir, 8% wedi teithio rhwng 50-100 milltir a 11.% wedi teithio dros 100 milltir.

Mae canlyniadau'r gwerthusiad yn dangos bod Tafwyl yn apelio nid yn unig i siaradwyr Cymraeg, ond y di-Gymraeg hefyd. 79% o fynychwyr oedd yn siarad Cymraeg.

2.3.2 Lleoliadau'r Ŵyl

Gyda 96.8% o fynychwyr y llynedd yn cytuno fod y Castell yn lleoliad arbennig ar gyfer yr ŵyl, dyna le fu eto eleni, ac roedd yr ymateb yn anhygoel, gyda 34,000 yn mynychu Ffair Tafwyl.

Pan ofynnwyd 'Ydych chi yn meddwl bod lleoliad y castell yn lleoliad addas i'r ŵyl?' cafwyd ymateb hynod bositif gyda 99% yn ateb 'Ydw'.

Am yr wythnos yn arwain i fyny at y Ffair, cynhaliwyd amrywiol ddigwyddiadau ar draws y ddinas mewn gwahanol leoliadau.

Roedd nifer o leoliadau flwyddyn yma gan gynnwys Lookout Café Bar, Canolfan Gôl, Parc Hailey, Elgano, Porters, Y Mochyn Du, Canolfan Celfyddydau Chapter, Stori Caerdydd, Clwb Ifor Bach, Duck Egg Bleu, Parc y Rhath a nifer o lyfrgelloedd Caerdydd. Roedd y lleoliadau i gyd wedi gweithio'n dda iawn ac mae'r lleoliadau yn awyddus i Fenter Caerdydd gynnal digwyddiadau yno eto.

***"ONE OF THE BEST ORGANISED EVENTS IN CARDIFF, BY FAR. STAFF, CLEANLINESS, SET UP, ORGANISATION, STAGE, ACTS, FOOD SELECTION... EVERYTHING, GREAT!"* THE WELSH CREPERIE CO. – ARLWYWR**

2.3.3 Graddio'r wyl

Roedd ymateb wych i'r ŵyl gan fynychwyr ar hyd ein tudalennau cymdeithasol ac mewn llythyrau personol.

Gofynnwyd i'r rhai a holwyd i raddio gwahanol feysydd o'r ŵyl. Dangosir crynodeb o'r ymatebion yn y siart isod.



Roedd y gerddoriaeth byw yn boblogaidd iawn gyda 96% yn graddio'r gerddoriaeth byw yn 'wych' neu 'da'.

Roedd y stondinau hefyd yn boblogaidd gyda 92% yn graddio'r stondinau yn 'wych' neu 'da'.

Roedd Argraff Gyffredinol y mynychwyr o'r ŵyl yn hynod bositif gyda 83.59% yn dweud ei fod yn wych, 14.36% yn dweud ei fod yn dda. Dim ond 2.05% oedd yn ei raddio yn weddol, a neb yn dweud ei fod yn wael.

Y maes oedd wedi dioddef fwyaf yn 2014 oedd Bwyd a Diod gyda 72% yn ei raddio yn 'wych' neu'n 'dda' – ond eleni mae'r canran wedi cynyddu i 88.09%, gyda dim ond 11.4% yn ei raddio yn weddol a 1.04% yn wael. Y rheswm mawr am hyn oedd oherwydd bod 8 stondin arlwyo gennym eleni (yn hytrach na6) o safon gwych, roedd meddwl mawr wedi mynd mewn i pwy oedd yn cael arlwyo, a roeddwn wedi sicrhau bod digon o arlwywyr yno i ddelio gyda'r niferoedd.

Gofynnwyd i'r gynulleidfa 'Ydych chi'n meddwl bod Tafwyl yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg?' - atebwyd 96.91% 'Ydw'.

Dywedodd 96.94% y bydden nhw'n debygol i ddod i'r ŵyl eto flwyddyn nesaf. Agweddau mwyaf poblogaidd yr ŵyl oedd y gerddoriaeth byw, y lleoliad, y cyfle i gymdeithasu drwy'r Gymraeg a chwrdd â ffrindiau, a'r awyrgylch croesawgar.

2.3.4 Effaith Economaidd

2.3.4.1 Gwariant Mynychwyr

Er mwyn gwerthuso gwariant mynychwyr Tafwyl, gofynnwyd yn yr holiadur i fynychwyr nodi faint gwarion nhw mewn gwahanol feysydd. Dyma'r canlyniadau:

Maes	Cyfartaledd
Bwyd a Diod / Food and Drink	£22.38
Stondinau / Stalls	£13.69
Trafnidiaeth i'r ŵyl / Transport to and from the festival	£5.00
Llety / Accomodation	£1.97
Tafarndai a Bwytai / Bars and Restaurants	£12.69
Cyfanswm gwariant y pen	£55.73

Felly, drwy ddadansoddi'r canlyniadau, a drwy ystyried bod 1/3 o fynychwyr yr ŵyl yn blant, gallwn weld bod Tafwyl yn dod ag oddeutu £1,263,213.33 o werth economaidd i'r brifddinas.

2.3.4.2 Stondinwyr

Eto eleni roedd 32 o stondinau cynnyrch Cymraeg. Holwyd stondinwyr Tafwyl mewn holiadur ar wahân i weld faint o arian gwnaethpwyd ar ddiwrnod yr ŵyl. Cyfartaledd arian y stondinwyr masnachol a holwyd oedd £700, sydd yn amcangyfrif o £22,400 o elw rhwng yr holl stondinwyr. Llwyddodd yr arlwywyr a bariau i wneud elw o ychydig dan £72,000. Roedd nifer o'r stondinwyr arlwyo/bariau hefyd wedi gorfod cyflogi nifer o siaradwyr Cymraeg lleol ar gyfer eu stondinau. Cafodd oddeutu 30 o staff lleol eu cyflogi ar gyfer yr ŵyl.

"MAE HI'N BLESER PUR I FOD YN RHAN O'R ŴYL GYMRAEG ARBENNIG HON. AWYRGYLCH GARTREFOL A CHYFEILLGAR, LLEOLIAD ARDDERCHOG A MYNEDIAD YN RHAD AC AM DDIM YN RHYFEDDOL I LWYDDO I DARGEDU CYNULLEIDFA EANG. GWYL SYDD WEDI EI THREFNU YN ARBENNIG O DDA. DALIER ATI MENTER CAERDYDD. DIOLCH O GALON." **MEINIR WYN, STONDINWR**

2.4 Datblygu Tafwyl

Gofynnwyd yn yr holiadur i bobl ddweud sut hoffant nhw weld Tafwyl yn datblygu. Dyma rhai o'r argymhellion:

- Ardal dan-do rhag y glaw
- Darpariaeth well i bobl ifanc yn eu harddegau
- Mwy o stondinau, gan gynnwys stondinau gan fudiadau a chymdeithasau'r ddinas
- Maes gwersylla
- Pabell Acwstig mwy
- Amserlennu bandiau yn well fel nad yw yn amharu ar ddigwyddiadau yn y pebyll
- Datblygu'r arlwy comedi, cabaret a theatr stryd
- Datblygu'r Babell Les

3. CRYNODEB A'R FFORDD YMLAEN

Eleni oedd blwyddyn fwyaf llwyddiannus Tafwyl gyda dros 35,500 yn mynychu'r ŵyl (9 diwrnod) a 34,000 yn mynychu Ffair Tafwyl yng Nghastell Caerdydd - cynnydd o 90% i gymharu a 18,717 llynedd.

Erbyn hyn rydym yn denu £145,475 o gyllid i ariannu Tafwyl, cynnydd o 24% ar incwm o'i gymharu â llynedd.

Daeth Tafwyl 2015 ag oddeutu £1,263,213.33 o werth economaidd i'r brifddinas.

Gwelwyd cynnydd hefyd yn y nifer o ddigwyddiadau unigol cafodd ei drefnu yn Tafwyl eleni - 210 o'i gymharu â 157 yn 2014. Roedd dros 99% o bobl wnaeth fynychu'r ŵyl yn y Castell o'r farn fod y lleoliad yn wych, 94.68% yn graddio'r adloniant yn 'wych' neu'n 'dda' a 96% yn graddio'r gerddoriaeth byw yn 'wych' neu'n 'dda'. Roedd 96.98% yn debygol o ddod i'r ŵyl eto'r flwyddyn nesa.

Roedd 96.91% o'r farn bod Tafwyl yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg.

Er mwyn parhau i gynnal a datblygu Tafwyl, ymateb i argymhellion ein cwsmeriaid, sicrhau ei fod yn ŵyl sydd yn gynhwysol a sy'n apelio i'r gynulleidfa ehangach, rhaid ystyried y ffactorau islaw ar gyfer y dyfodol:

- Cadw'r ŵyl yn ŵyl sydd yn rhedeg dros benwythnos cyfan - yn ŵyl deuddydd.
- Cadw'r ŵyl yng Nghastell Caerdydd. Cydweithio gyda Chyngor Caerdydd er mwyn parhau i ddefnyddio'r castell.
- Cadw'r ŵyl yn fynediad di-dâl ond parhau i sicrhau incwm sylweddol er mwyn cynnal yr ŵyl.
- Creu cynnwys newydd i'r ŵyl gan gynnwys mwy o gynnwys yn addas ar gyfer pobl ifanc a datblygu'r elfennau lles, comedi a chelfyddyd.
- Gwell darpariaeth ar gyfer y glaw.
- Cadw ansawdd uchel y stondinau bwyd.
- Datblygu partneriaeth gyda Visit Wales er mwyn ehangu brand Tafwyl tu fas i Gymru ac efeillio Tafwyl gyda Gŵyl Ewropeaidd.